

MODIWL 2B – DATGANIAD CLOI LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwyniad

1. Mae'r datganiad cloi hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y prif faterion a drafodwyd yn ystod tair wythnos o dystiolaeth: ei gweithredoedd cyn y cyfyngiadau symud; ei phrosesau gwneud penderfyniadau yn ystod y pandemig; ei chysylltiadau rhynglywodraethol a'i dulliau cyfathrebu anffurfiol.

Rhan I: Ionawr a Chwefror 2020

2. Yn ystod misoedd cynnar 2020, y prif faterion a oedd yn dominyddu oedd y risgiau y gallai Brexit heb gytundeb ddigwydd; pwysau'r gaeaf yn y gwasanaeth iechyd, sydd bob amser ar eu hanterth ddechrau mis Ionawr; yr angen i basio'r gyllideb, a llifogydd sylweddol iawn a effeithiodd ar filoedd o bobl yn y De.¹ Roedd ffocws Llywodraeth Cymru yn rhesymol ar y materion brys hynny oherwydd ar ddiwedd mis Ionawr 2020 nid oedd fawr ddim sicrwydd, neu ddim sicrwydd o gwbl, y byddai'r coronafeirws newydd yn lledaenu y tu hwnt i Tsieina.
3. Er hynny, ar ddiwedd mis Ionawr 2020, pan ddechreuodd lledaeniad y tu hwnt i Tsieina ddod yn fwy tebygol, gweithredodd Llywodraeth Cymru (a'r llywodraethau datganoledig eraill) ar y sail y byddai Llywodraeth y DU yn arwain yr ymateb i'r pandemig ac yn cymryd camau i baratoi. Er enghraifft, ond heb fod yn gynhwysfawr:
 - (a) Ar 24 Ionawr, dywedodd Prif Swyddog Meddygol Cymru (**y Prif Swyddog Meddygol**) wrth y Prif Weinidog fod risg sylweddol y byddai'r feirws yn cyrraedd Cymru. O dan gyfarwyddyd y Prif Weinidog, mynychodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarfodydd Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet (COBR) gweinidogol o 28 Ionawr ymlaen. Rhoddodd y Prif Swyddog Meddygol gyngor i gyrff y GIG drwy nodyn iechyd y cyhoedd ynghylch beth i'w wneud pe bai gan glaf symptomau C-19.²
 - (b) O 28 Ionawr ymlaen, cafodd Gweinidogion a swyddogion eu diweddar'u ddyddiol ar lefel y bygythiad, y data o brofion, y canllawiau i'r GIG ac unrhyw wybodaeth arall i lywio'r gwaith o gynllunio a gwneud penderfyniadau.³
 - (c) Cynhaliwyd cyfarfodydd Cymru gyfan yn rheolaidd a fynychwyd gan gynrychiolwyr o lywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill i gynllunio a chydgysylltu'r ymateb; dosbarthodd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ganllawiau i'r GIG; awdurdodwyd labordy

¹ Drakeford, 13 Mawrth 2020 [45/24 - 46/10].

² INQ000383578; INQ000383579.

³ INQ000320708.

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

ICC fel nad oedd angen i samplau gael eu hanfon i Loegr; a datblygodd ICC ganllawiau i ategu'r hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

- (d) Ar 31 Ionawr, fe wnaeth y pedwar Prif Swyddog Meddygol uwchraddio'r bygythiad i'r DU o isel i gymedrol. Cyhoeddodd y Prif Swyddog Meddygol ddatganiad a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r GIG ddwysáu ei gynlluniau a'i baratoadau. Nodwyd hefyd fod y DU wedi cadarnhau ei hachos cyntaf o'r coronafeirws newydd a'i bod yn debygol y byddai Cymru yn gweld achosion ohono.⁴
4. Cyn i fis Chwefror ddechrau, roedd Llywodraeth Cymru yn effro i ddatblygiadau, ond ar y pryd nid oedd yr un achos wedi'i gadarnhau yng Nghymru.⁵ Wedi dweud hynny, parhaodd a chyflymodd y paratoadau ym mis Chwefror 2020. Yn gwyno:
- (a) Ar 3 Chwefror, cymerodd y Prif Swyddog Meddygol gamau i sicrhau y gellid cymeradwyo profion yng Nghymru.⁶
- (b) Diweddarwyd y cyngor teithio ar gyfer pobl yng Nghymru a chafodd y rheoliadau gosod ffioedd eu datgymhwyso ar gyfer y rhai â symptomau ac a oedd yn ceisio meddyginiaeth.
- (c) Ar 4 Chwefror, cyfarfu'r Grŵp Argyfyngau Sifil Posibl am y tro cyntaf, yng nghyd-destun y pandemig. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, cydnabuwyd y posibilrwydd o'r coronafeirws yn dod i'r DU ac felly i Gymru, a'r angen i nodi sylwedd yr ymateb.⁷ Mae cofnodion y cyfarfod yn dangos ymwybyddiaeth ddifrifol o natur a graddfa'r bygythiad, a'r angen i gynllunio ar sail y sefyllfa waethaf wrth fonitro digwyddiadau yn Tsieina ac a oedd y feirws yn debygol o gael ei reoli.
- (d) Ar yr un diwrnod, sefydlwyd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru ac o hynny ymlaen cyfarfu'r Ganolfan yn ddyddiol.⁸
- (e) Hefyd ar 4 Chwefror, ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol at y byrddau iechyd lleol (**BILLau**) i sôn am ddiogelu a rheoli heintiau ar gyfer darparwyr gofal iechyd ac asesu achosion a amheuwyd o'r coronafeirws, ac i gael sicrwydd bod ganddynt stociau digonol o gyfarpar diogelu personol (PPE).⁹
- (f) Ar 10 Chwefror, ysgrifennodd y Prif Swyddog Meddygol at y BILLau am eu cyfrifoldeb i asesu a phrofi unigolion a allai fod â'r feirws, ac i'w gwneud yn ofynnol iddynt ddatblygu cynlluniau asesu a phrofi cymunedol.¹⁰

⁴ INQ000320710.

⁵ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [46/19-24].

⁶ INQ000383582; INQ000383583.

⁷ Kilpatrick, 6 Mawrth 2024 [151/13 – 152/9].

⁸ Kilpatrick, 6 Mawrth 2024 [154/15 – 19], [154/7-22].

⁹ INQ000226920.

¹⁰ INQ000298964.

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

- (g) O 10 Chwefror ymlaen, cyfarfu Tîm Cydnerthedd Llywodraeth Cymru â chadeiryddion y pedwar Fforwm Lleol Cymru Gydnerth ac ICC yn wythnosol i helpu i sicrhau parodrwydd yn lleol.¹¹
- (h) Ar 12 Chwefror, cyfarfu'r Grŵp Gwrthfesuau Iechyd am y tro cyntaf i gydgyssylltu gwrthfesuau, gan gynnwys PPE.¹² Daeth â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru ac ICC a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ynghyd i nodi'r cyfarpar a oedd yn ofynnol ac unrhyw fylchau yn y stoc.¹³
- (i) Yng nghanol mis Chwefror, gwelwyd "newid gêr" yn y paratodau.¹⁴ Adlewyrchwyd hynny yn y gwaith a wnaed gan swyddogion i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n hwylus a bod eglurder o ran cyfrifoldebau.¹⁵ Nododd Mr Drakeford mai'r cyfarfod COBR gweinidogol ar 18 Chwefror oedd y pwynt pan wnaeth Llywodraeth Cymru gydnabod bod yr ymateb i'r pandemig wedi dod yn fater trawslywodraethol.¹⁶ Yn sgil y newid hwn, sefydlwyd y Pwyllgor ExCovid ar 18 Chwefror. Darparodd y Pwyllgor oruchwyliaeth reolaidd ar lefel uwch o'r ymateb i'r pandemig i sicrhau bod y weinyddiaeth yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.¹⁷ Rhoddodd Llywodraeth Cymru ac ICC ddiweddariadau wythnosol i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol o 19 Chwefror ymlaen.¹⁸
- (j) Ar 20 Chwefror, cyfarfu Grŵp Cynllunio ac Ymateb y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y tro cyntaf. Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o GIG Cymru, BILlau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Arolygiaeth Gofal Cymru a sefydliadau'r trydydd sector. Roedd ei saith is-grŵp sector-benodol yn (a) caniatáu i wybodaeth gael ei chasglu gan y grwpiau hynny, a'i lledaenu, yn effeithlon ac yn effeithiol,¹⁹ a (b) yn sicrhau bod polisïau yn cael eu llywio gan brofiad/arbenigedd ei aelodau.²⁰ Er y gellid bod wedi mireinio ei strwythur ymhellach, roedd yr is-grwpiau yn "hanfodol" ac yn "canolbwyntio ar y meysydd cywir".²¹ Roeddent yn effeithiol ac fe gawsant eu cadw am eu bod yn gweithio.²²

5. Cafodd Covid-19 ei drafod gyntaf gan y Cabinet ar 25 Chwefror. Nid yw'r ffaith na chafwyd trafodaeth ffurfiol flaenorol yn golygu na chafwyd trafodaeth gan Weinidogion. Fe wnaeth Mr

¹¹ Kilpatrick, INQ000274156, §31; INQ000321240.

¹² Goulding, INQ000377979, §§32, 38 a 65.

¹³ INQ000298968.

¹⁴ Shan Morgan, 4 Mawrth 2024 [186/13-17]; Goodall, 5 Mawrth 2024 [51/7-10].

¹⁵ INQ000320719.

¹⁶ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [49/9-14].

¹⁷ Shan Morgan, 4 Mawrth 2024 [166/4-14], [167/13-23], [168/16 – 169/4]; Shan Morgan, INQ000371233, §38.

¹⁸ INQ000309708.

¹⁹ Goodall (Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), INQ000319643, §§100-101.

²⁰ Goodall, 5 Mawrth 2024 [27/22 – 28/4].

²¹ Goodall, 5 Mawrth 2024 [29/12-24], [27/22-23].

²² Goodall, 5 Mawrth 2024 [28/15-17], [29/18-20].

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

Drakeford nodi'n glir bod trafodaeth sylweddol wedi bod cyn 25 Chwefror. Fodd bynnag, yr hyn sy'n gwneud cyfarfod y Cabinet ar y dyddiad hwnnw'n arwyddocaol yw'r ffaith ei fod yn gydnabyddiaeth o'r angen i wneud penderfyniadau ar draws portffolios mewn ymateb i'r feirws.²³

6. Ar 27 Chwefror, sefydlwyd y Gell Cyngor Technegol (**TAC**) i ddarparu cyngor gwyddonol penodol i Gymru.²⁴ Cafodd yr achos cyntaf o Covid-19 yng Nghymru ei gadarnhau'r diwrnod dilynol.
7. Tan y cyfarfod COBR ar 20 Mawrth, roedd Gweinidogion wedi cymryd y byddai penderfyniadau ynghylch ymyriadau anfferyllol yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU, naill ai o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (**Deddf 2004**) neu, pan ymddengys nad oedd hynny'n debygol, o dan Fil y Coronafeirws. Yn y cyfarfod COBR, dywedodd y Twrnai Cyffredinol y byddai angen i bob gwlad wneud rheoliadau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (**Deddf 1984**) i weithredu'r penderfyniad i gau'r diwydiant lletygarwch. Symudodd y cyfrifoldeb dros wneud rheoliadau i Gymru at Lywodraeth Cymru, ond byddai wedi cymryd "naid llawn dychymyg" i Gymru fod wedi gweithredu'n unochrog pan gâi'r penderfyniadau eu gwneud gan Lywodraeth y DU.²⁵
8. Cynulliadau torfol: Dadleuodd y Prif Weinidog dros wahardd cynulliadau torfol yn y cyfarfod COBR ar 12 Mawrth, ond nid oedd Llywodraeth y DU yn cytuno. Roedd o'r farn bod "anghysondeb gwybyddol" rhwng y neges 'aros gartref' a chaniatáu i gynulliadau torfol barhau,²⁶ ond ni allai Llywodraeth Cymru weithredu'n unochrog: nid oedd ganddi'r pŵer i'w gwahardd.²⁷
9. Ysgolion: Caewyd ysgolion ar 18 Mawrth mewn ymateb i ddigwyddiadau a oedd yn datblygu. Ar 17 a 18 Mawrth, roedd cynghorau yn cau ysgolion yn unochrog am nad oedd rhieni'n anfon eu plant i'r ysgol ac oherwydd absenoldeb aelodau staff.²⁸ Roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod trefn ac, yn dilyn trafodaeth gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, caewyd ysgolion. Galluogodd dull ymarferol Llywodraeth Cymru, a oedd yn seiliedig ar gyngor, ddarpariaeth ar gyfer plant gweithwyr allweddol, plant agored i niwed a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig.

²³ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [47/13 – 48/13], [48/24 – 49/18].

²⁴ INQ000320747, INQ000383610.

²⁵ Drakeford, 13 Mawrth 2024, tt.38 – 41.

²⁶ Drakeford, datganiad Modiwl 2, INQ000273747, §36; datganiad Modiwl 2B, INQ000371209, §§§ 91 – 94.

²⁷ Drakeford, 13 Mawrth 2024, tt. 87 – 89.

²⁸ Drakeford, 13 Mawrth 2024, tt. 99 – 101.

10. Cyfyngiadau symud: Ar ôl y penderfyniad ar 20 Mawrth, gofynnodd Gweinidogion i swyddogion am gyngor ar gyfyngiadau symud penodol i Gymru.²⁹ Rhagwelwyd y byddai cyfarfod COBR ar 22 Mawrth, ond pan na ddigwyddodd hynny, nid oedd Gweinidogion yn hyderus y byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno cyfyngiadau symud. Trafododd Cabinet Cymru gyfyngiadau symud ar fore 23 Mawrth. Yn ddiweddarach yn y cyfarfod COBR, dywedodd Prif Weinidog y DU wrth y Prif Weinidogion y byddai'n cyhoeddi cyfyngiadau symud yn Lloegr a gofynnodd iddynt wneud yr un peth yn eu gwledydd. Gwnaeth y Prif Weinidog yr ymrwymiad hwnnw gan wybod bod y Cabinet yn cefnogi'r penderfyniad.³⁰ Mae rhai o dystion Llywodraeth Cymru wedi dweud y dylai'r penderfyniad i gyflwyno cyfyngiadau symud fod wedi cael ei wneud wythnos ynghynt. Fodd bynnag, am y rhesymau a eglurwyd eisoes, byddai wedi bod yn angenrheidiol i benderfyniad ynghylch cyflwyno cyfyngiadau symud ar 16 Mawrth 2020 fod wedi cael ei arwain gan Lywodraeth y DU, gan nad oedd hi ar y pryd wedi nodi'r cyfrwng deddfwriaethol ar gyfer ymateb i'r pandemig.

Rhan II: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig

A. Strwythurau a phrosesau gwneud penderfyniadau

11. Adolygiadau 21 diwrnod: Yn syth ar ôl y penderfyniad i gyflwyno cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth, cymerodd Llywodraeth Cymru gamau i sicrhau bod ei phenderfyniadau yn ystyriol, yn drylwyr ac yn unol â gofynion cyfreithiol Deddf 1984. Nid oedd y broses hon ar waith ar gyfer yr adolygiad cyntaf o'r rheoliadau ar 16 Ebrill 2020,³¹ ond roedd wrthi'n cael ei datblygu. Roedd llawer o'r strwythur ar waith ar gyfer adolygu'r rheoliadau ar 7 Mai ac roedd strwythur gwneud penderfyniadau cynhwysfawr (gan gynnwys gwybodaeth fanwl am yr effaith ar gydraddoldeb) ar waith erbyn 27 Mai. Erbyn yr adolygiad ar 18 Mehefin 2020, roedd asesiadau effaith ffurfiol yn cael eu cynnal a dechreuwyd cyhoeddi asesiadau effaith cryno ynghyd â gwybodaeth am yr adolygiadau.³² Nid yw'r oedi byr hwn yn syndod o ystyried mai dim ond yn union cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud y daeth yn amlwg y byddai Deddf 1984 yn cael ei defnyddio i osod mesurau i fynd i'r afael â'r feirws (yn hytrach na Llywodraeth y DU yn defnyddio Deddf 2004 neu Ddeddf y Coronafeirws) ac, fel y nododd Reg Kilpatrick mewn tystiolaeth, dim ond ar 23 Mawrth y daeth yn amlwg y byddai angen adolygu'r rheoliadau bob 21 diwrnod.³³

12. Conglfaen y broses gwneud penderfyniadau oedd yr adolygiadau 21 diwrnod. Roeddent yn caniatáu i Weinidogion wneud penderfyniadau yn seiliedig ar y cefndir gwyddonol,

²⁹ Drakeford, 13 Mawrth 2024, tt. 101 – 102.

³⁰ Drakeford, 13 Mawrth 2024, t. 104.

³¹ Miles, 12 Mawrth 2024 [159/10-18].

³² Miles, 12 Mawrth 2024 [172/7-9].

³³ Kilpatrick, 6 Mawrth 2024 [170/8-15].

meddygol, cyfreithiol a ffeithiol. Roeddent yn "*caniatáu i [Llywodraeth Cymru] sicrhau bod modd dod â'r holl leisiau priodol gwahanol i'r bwrdd*".³⁴ Roedd y boblogaeth yn deall y rhythm 21 diwrnod; darparodd strwythur da ar gyfer cyfarfodydd mewnol, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu ehangach.³⁵

13. Ymgysylltu â llywodraeth leol: Bu ymgysylltu rheolaidd a sylweddol â llywodraeth leol drwy gydol y pandemig. Yn gryno:

- (a) Cadeiriwyd cyfarfodydd gan Weinidogion a mynychwyd hwy gan arweinwyr a phrif weithredwyr awdurdodau lleol, CLILC a swyddogion. Fe'u defnyddiwyd i ymgynghori ar ymyriadau anfferyllol ac agweddau eraill ar yr ymateb, ac fe'u cynhaliwyd mor rheolaidd ag oedd angen.³⁶
- (b) Cyfarfodydd anffurfiol rhwng Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a phrif weithredwyr awdurdodau lleol, a gynhaliwyd mor aml ag oedd yn ofynnol ac o leiaf bob wythnos. Roeddent yn drafodaethau agored a gonest am faterion gweithredol, gan gynnwys darpar ymyriadau anfferyllol.³⁷
- (c) Cyfarfodydd rhwng swyddogion ynghylch meysydd polisi penodol (e.e. gofal cymdeithasol ac addysg).³⁸
- (d) Cyfarfodydd y Grŵp Craidd Covid a fynychwyd gan arweinydd CLILC a Chyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol.³⁹
- (e) Cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth, a barhaodd fel arfer drwy gydol y pandemig. Roedd y rhain a chyfarfodydd dau is-grŵp ychwanegol y Cyngor a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig yn darparu fforwm arall lle'r oedd arweinwyr awdurdodau lleol, CLILC, a Gweinidogion Cymru yn gallu cyfathrebu.⁴⁰

14. Adlewyrchir effeithiolrwydd yr ymgysylltu hwn yn nhystiolaeth CLILC sy'n cyfeirio at "*lefel ddigynsail o ddeialog ac ymgysylltu a didwyllled*".⁴¹ Mewn perthynas ag ymgysylltu ar lefel swyddogol, nododd CLILC restr eang o gyfarfodydd, yn ogystal â'r rhai ym mharagraff 13 uchod, a sicrhodd fod safbwyntiau awdurdodau lleol yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ymyriadau anfferyllol, rheoliadau a oedd yn dod i'r amlwg a materion eraill a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig.⁴² Roedd CLILC o'r farn bod

³⁴ Cyfieithiad o Goodall, 5 Mawrth 2024 [39/17-20]; gweler hefyd Eluned Morgan, 12 Mawrth 2024 [23/24 - 24/15].

³⁵ Mason, 7 Mawrth 2024 [28/1-12].

³⁶ Datganiad tyst Reg Kilpatrick (LGD) § 57-62.

³⁷ Datganiad tyst Reg Kilpatrick (LGD) § 63-65.

³⁸ Datganiad tyst Reg Kilpatrick (LGD) §63.

³⁹ Datganiad tyst Reg Kilpatrick (LGD) §68.

⁴⁰ Datganiad tyst Reg Kilpatrick (LGD) paragraffau 69, 70-74

⁴¹ Cyfieithiad o Llewelyn, INQ000273741, §36.

⁴² Llewelyn, INQ000273741, §76.

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

ganddi "*rôl gyngori ac ymgynghori*" mewn trafodaethau am ymyriadau anfferyllol, a bod ei "*gwybodaeth a'i safbwyntiau lleol wedi helpu i lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch ymyriadau anfferyllol*".⁴³

15. Roedd yr ymgysylltu ar lefel swyddogion yn ddwys. Cofiai Reg Kilpatrick, yn ei faes cyfrifoldeb yn unig, lefel eithriadol o ymgynghori a thros 30 o gyfarfodydd bob mis ym mis Chwefror a mis Mawrth rhwng swyddogion a Gweinidogion a llywodraeth leol.⁴⁴ Er i Dr Llewelyn ddweud y dylid cynnwys llywodraeth leol wrth gydgyhyrchu polisi, dyna'n union a ddigwyddodd; ond yn gyflym ac yn gymharol anffurfiol.

16. Barn Dr Llewelyn ar y pryd, fel y cadarnhawyd wrth Tracey Burke ar 26 Mawrth, oedd bod "*yr ymgysylltu rhwng eich cydweithwyr, a Steve [Davies] a Reg [Kilpatrick] yn benodol, wedi cynyddu'n sylweddol dros yr wythnos ddiwethaf ac rwy'n ddiolchgar i chi i gyd am ymateb mor gadarnhaol*".⁴⁵ Mae hynny'n gyson â thystiolaeth Reg Kilpatrick bod pryderon CLILC "*yn y cyfnod cyn y cyfyngiadau symud a'r syndod a achosodd y penderfyniad hwnnw iddynt*".⁴⁶ Erbyn hydref 2020, dywedwyd bod deialog yn "*fodel o gysylltiadau canolog-lleol*".⁴⁷ Ym mis Rhagfyr 2020, yn dilyn cyfarfod gyda Dr Llewelyn, cofnododd Shan Morgan fod "*Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn teimlo bod y bartneriaeth rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol yn gweithio'n dda iawn yng Nghymru*" a bod cydweithwyr Dr Llewelyn yn Lloegr yn "*genfigennus*" o'r berthynas gadarnhaol. Cyfeiriwyd yn benodol at y perthnasoedd â Reg Kilpatrick a Jo-anne Daniels (ill dau yn swyddogion yn Llywodraeth Cymru) fel rhai arbennig o nodedig.⁴⁸

17. Ymgysylltu â gwyddoniaeth: Roedd cyngor gwyddonol a chlinigol yn hanfodol i benderfyniadau Llywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig. Roedd Gweinidogion a swyddogion yn awyddus i sicrhau bod ganddynt y data, yr arbenigedd a'r wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus ac fe fanteisiwyd ar yr adnoddau canlynol:

(a) Cynghorwyd y Cabinet gan y Prif Swyddog Meddygol, a oedd mewn cysylltiad agos â Gweinidogion bob dydd. Byddai'r Prif Swyddog Meddygol yn cynghori'r Cabinet cyn unrhyw drafodaeth, i sicrhau bod trafodaethau a phenderfyniadau'r Cabinet yn cael eu llywio gan y cyngor diweddaraf.

⁴³ Cyfieithiad o Llewelyn, INQ000273741, §§ 88 – 89.

⁴⁴ Kilpatrick, 6 Mawrth 2024 [173/16-21].

⁴⁵ INQ000089876 (cyfieithiad o ddyfyniad).

⁴⁶ Cyfieithiad o Kilpatrick, 6 Mawrth 2024 [175/9-21].

⁴⁷ Cyfieithiad o Llewelyn, INQ000273741, §112.

⁴⁸ INQ000299744.

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

- (b) Cydweithiodd y Prif Swyddog Meddygol ag ICC drwy gydol y pandemig.⁴⁹ Ef oedd y sianel ar gyfer cyfleu cyngor a gwybodaeth gan ICC i Weinidogion.
- (c) Daeth yr angen am gyngor penodol i Gymru i'r amlwg yn gynnar iawn, yn enwedig oherwydd bod y rhan fwyaf o'r data a'r dadansoddiadau a gasglwyd gan y Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) yn canolbwyntio ar y DU. Mae demograffeg Cymru a'r strwythurau gofal iechyd sydd ar waith yma'n wahanol iawn. Daeth y Grŵp Cyngor Technegol (TAG) ag arbenigwyr gwyddonol a thechnegol, o'r tu mewn a'r tu allan i'r llywodraeth, ynghyd i ddarparu cyngor ac arweiniad penodol i Gymru. Roedd ei ddadansoddiadau yn seiliedig ar ddata a gasglwyd yng Nghymru, gan gynnwys capasiti'r GIG yng Nghymru, cyfraddau heintio a phwyntiau data eraill.⁵⁰ Roedd ei naw is-grŵp yn cynnig naw arbenigedd gwahanol, ond a oedd yn uniongyrchol berthnasol i'r pandemig. Adeiladodd TAG ar y model SAGE lle y gallai. Er enghraifft, nid oedd cyngor economaidd yn chwarae rhan sylweddol yng nghyngor SAGE, felly caniatodd is-grŵp niwed economaidd TAG i Gymru lenwi'r bwlch hwnnw.⁵¹
- (d) Cafodd Gweinidogion gyngor wythnosol gan SAGE yng nghymau cynnar y pandemig. Pan ddechreuodd yr adolygiadau 21 diwrnod ym mis Ebrill, cafodd Gweinidogion gyngor pwrpasol gan TAG ar gynigion penodol i Gymru a'u heffaith bosibl. Rhannwyd gwybodaeth fanwl â hwy a oedd yn nodi'r data yr oedd TAG wedi'u cael a'i ddadansoddiad a'i drafodaethau dilynol, yn ogystal â chrynodeb o'r cyngor hwnnw a oedd yn addas i'w gyhoeddi.⁵² Roedd cyhoeddi crynodeb o gyngor TAG yn sicrhau tryloywder ynghylch sail penderfyniadau Llywodraeth Cymru a'r rhesymau dros eu gwneud a oedd, yn ei dro, yn creu hyder poblogaidd yn y penderfyniadau hynny.
- (e) Roedd gwaith TAG yn galluogi Llywodraeth Cymru i elwa ar fodelau a data'r DU, gan gynnwys gwaith y Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig - Modelu (SPI-MO), ond i ddeall a chymhwysu'r rhain i ddemograffeg a nodweddion unigryw Cymru yn benodol. Drwy weithio gyda Phrifysgol Abertawe a thrwy'r arbenigedd yn TAG, roedd gan Lywodraeth Cymru fynediad at fodel pwrpasol i Gymru y gellid ei gomisiynu a'i ddefnyddio i ystyried effaith rheoliadau a diwygiadau arfaethedig. Tynnodd y gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe ystod eang iawn o ddata a oedd yn tarddu o Lywodraeth Cymru ac o ffynonellau allanol ynghyd, gan gynnwys gwybodaeth

⁴⁹ Atherton, 4 Mawrth 2024 [15/10-16/12].

⁵⁰ Orford, 4 Mawrth 2024 [90/9-91/18].

⁵¹ Orford, 4 Mawrth 2024 [91/19-93/18].

⁵² Orford, 4 Mawrth 2024 [98/16-100/6].

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

yn ymwneud â gweithwyr gofal cymdeithasol; presenoldeb plant mewn ysgolion; setiau data adrannau achosion brys; data gan weithwyr gofal iechyd; asesiadau risg a'r ap ZOE.⁵³

18. Heintiau asymptomatig a chartrefi gofal: Fel y nododd y Cwnsler i'r Ymchwiliad, mae ystyried y dystiolaeth gymhleth mewn perthynas â'r dystiolaeth glinigol a'r dystiolaeth wyddonol ynghylch heintiau asymptomatig, trosglwyddo asymptomatig, profi a chyngor ar ryddhau yn fater ar gyfer modiwlau diweddarach. Clywodd y modiwl hwn dystiolaeth lefel uchel am y dull o wneud penderfyniadau ynghylch y materion anodd hyn. Dengys y dystiolaeth na chafodd penderfyniadau eu gwneud yn ysgafn a'u bod yn seiliedig ar y data a'r dadansoddiadau fel yr oeddent ar y pryd. Manteisiwyd hefyd ar gyngor gan y Prif Swyddog Meddygol, y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd, ICC a SAGE. Er mwyn asesu'r penderfyniadau yn deg, mae'n bwysig bod yn benodol ar gynnwys y cyngor hwnnw a chyflwr y wyddoniaeth ar unrhyw adeg benodol.
19. Nid yw haint asymptomatig yn gyfystyr â throsglwyddiad asymptomatig. Ni allai SARS-CoV-1 gael ei drosglwyddo gan unigolion asymptomatig.⁵⁴ Y cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr ar 29 Ionawr 2020 oedd nad oedd y data a oedd ar gael ar y pryd yn ddigonol i ddarparu tystiolaeth ar gyfer trosglwyddiad asymptomatig/is-glinigol eang o Covid-19.⁵⁵
20. Datblygodd dealltwriaeth yr arbenigwyr o'r posibilrwydd o drosglwyddiad asymptomatig, a lywiodd y cyngor a roddwyd i Weinidogion, yn raddol yn ystod y pandemig.⁵⁶ Ym mis Chwefror 2020, cafwyd tystiolaeth o fwrdd y *Diamond Princess* fod 30-50% o achosion yn asymptomatig. Gwnaeth y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd hi'n glir nad oedd hyn yn golygu bod trosglwyddiad asymptomatig mewn 30-50% o achosion. Ni wyddys a oedd gan yr unigolion hynny wedi'u heintio unrhyw symptomau neu symptomau blaenorol neu nifer bach o symptomau, yn yr ystyr bod ganddynt symptomau ysgafn, neu a oeddent yn gallu trosglwyddo.⁵⁷ Eglurodd Dr Williams fod y cwestiwn a oedd modd canfod heintiau asymptomatig drwy brofi a neu'r cwestiwn a oeddent yn drosglwyddadwy yn ddau gwestiwn ar wahân.⁵⁸ Dywedodd y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd nad oedd adroddiadau gan y *Diamond Princess* yn darparu digon o dystiolaeth y gallai pobl asymptomatig drosglwyddo Covid-19. Daeth digon o dystiolaeth i ddweud y gallai pobl asymptomatig drosglwyddo

⁵³ Howarth, 4 Mawrth 2024 [124/10-124/22].

⁵⁴ Orford, 4 Mawrth 2024 [106/18-107/6].

⁵⁵ INQ000224495

⁵⁶ Atherton, 4 Mawrth 2024 [32/9/23].

⁵⁷ Orford, 4 Mawrth 2024 [106/15-107/6].

⁵⁸ Williams, 1 Mawrth 2024 [43/7-22].

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

"*lawer yn ddiweddarach*".⁵⁹ Mae'r Ymchwiliad yn effro i'r ffaith nad yw ond wedi clywed cyfran o'r dystiolaeth gymhleth ar y pwnc hwn hyd yn hyn.

21. Gofynnwyd a ddylid bod wedi cymryd ymagwedd fwy rhagofalus er gwaethaf y cyfyngiadau yn y dystiolaeth. Eglurodd Mr Drakeford mai'r cyngor, tan ddiwedd mis Ebrill, oedd nad oedd unrhyw sail i wneud hynny.⁶⁰ Disgrifiodd Mr Gething y dasg anodd o gydbwysu'r risgiau posibl yn erbyn y risgiau hysbys.⁶¹ Roedd angen i bolisiâu sicrhau cydbwysedd rhwng y risg sylweddol y byddai ysbytai'n cael eu llethu a'r angen dybryd i ryddhau capasiti. Cafodd y cydbwysedd a sicrhawyd gan y polisiâu ei lywio'n sylweddol gan ganllawiau Cymdeithas Geriatreg Prydain ynghylch gallu cartrefi gofal i reoli achosion symptomatig ac asymptomatig a sicrhau bod mesurau ynysu a mesurau rheoli ac atal heintiau effeithiol ar waith. Roedd rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng y risg i gleifion a oedd yn agored i niwed ac yn oeddrannus yn yr ysbyty yn erbyn y risgiau a wynebwyd ganddynt mewn cartref gofal.⁶²
22. Datblygwyd polisiâu yn ymwneud â phrofi a rhyddhau ar y cyd ag ICC. Esboniodd Dr Williams, er ei gred ar y pryd ei bod yn bwysig ystyried y llwybrau trosglwyddo posibl ar sail ragofalus, nad oedd hynny'n golygu bod angen i Lywodraeth Cymru gymryd yn ganiataol bod trosglwyddiad asymptomatig yn digwydd.⁶³ Ym mis Tachwedd 2020, ar ôl dadansoddi dystiolaeth ar yr wybodaeth ddiweddaraf am gartrefi gofal a rhyddhau cleifion o'r ysbyty, daeth ICC i'r casgliad nad oedd rhyddhau cleifion o'r ysbyty "yn ffactor sylweddol yn lledaeniad COVID-19 i gartrefi gofal preswyl yng Nghymru".⁶⁴
23. Gorchuddion wyneb: Mae penderfyniadau am orchuddion wyneb yn dangos Gweinidogion yn dilyn cyngor eu cynghorwyr gwyddonol, hyd yn oed pan oedd hynny'n gwyro oddi wrth y sefyllfa yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd y Prif Swyddog Meddygol o'r farn mai dim ond "tystiolaeth wan o fudd bach" oedd ynghlwm â gwneud gorchuddion wyneb yn orfodol ar y pryd.⁶⁵ Glynodd wrth y farn honno pan gafodd ei holi.⁶⁶ Mae'r dystiolaeth yn dangos ymhellach bod y rhai a oedd yn gwneud penderfyniadau a swyddogion wedi cwestiynu cyngor y Prif Swyddog Meddygol a bod TAG wedi darparu papurau manwl ar y dystiolaeth. Roedd aelodau wedi'u rhannu ynghylch effeithiolrwydd gorchuddion wyneb gorfodol. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl i gefnogi'r awgrym bod Llywodraeth Cymru wedi chwarae gwleidyddiaeth gyda'r mater o orchuddion wyneb.⁶⁷ Byddai wedi bod yn

⁵⁹ Cyfieithiad o Orford, 4 Mawrth 2024 [106/15-107/6].

⁶⁰ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [64/13-65/2].

⁶¹ Gething, 11 Mawrth 2024 [123/8-124/2].

⁶² Atherton, 4 Mawrth 2024 [70/8-71/13].

⁶³ Williams, 1 Mawrth 2024 [44/22-43/10].

⁶⁴ INQ000224074 (cyfieithiad o ddyfyniad).

⁶⁵ Cyfieithiad o Atherton, 4 Mawrth 2024 [47/6-7].

⁶⁶ Gweler er enghraifft: Atherton, 4 Mawrth 2024 [65/16-17] a [64/25 - 65/3].

⁶⁷ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [141/10-21].

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

hwylus yn wleidyddol i sicrhau bod y rheolau yng Nghymru yn gyson â gweddill y DU, ond dywedodd Mr Drakeford ei bod yn bwysig derbyn cyngor y Prif Swyddog Meddygol er bod hynny wedi cael digon o feirniadaeth.⁶⁸

24. Fe wnaeth y sefyllfa yng Nghymru newid erbyn Medi 2020 ac mae gwersi i'w dysgu o wro oddi wrth y rheolau ar orchuddion wyneb gorfodol. Roedd y Prif Swyddog Meddygol yn derbyn, er gwaethaf diffyg tystiolaeth dda, y gallai gwneud gorchuddion wyneb yn orfodol ar yr un pryd â Lloegr fod wedi bod yn well o ystyried bod gwro oddi wrth hynny wedi achosi dryswch yng Nghymru.⁶⁹

25. Ymgysylltu â'r trydydd sector a grwpiau eraill: Roedd y broses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ymgysylltu helaeth â chynrychiolwyr o sectorau o'r gymdeithas yr effeithiwyd arnynt. Hwyluswyd hynny gan grwpiau, pwyllgorau a fforymau a oedd eisoes yn bodoli ac a addasodd yn gyflym i gwrdd â heriau'r pandemig, yn ogystal â chan grwpiau newydd a sefydlwyd.

26. Siaradodd yr Athro Emmanuel Ogbonna yn gadarnhaol am y Grŵp Cyngori ar COVID-19 a Phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'i is-grwpiau, gan gynnwys adroddiad yr is-grŵp economaidd-gymdeithasol a gyhoeddwyd ar 18 Mehefin 2020 a'r offeryn asesu risg a ddatblygwyd gan yr is-grŵp asesu risg.⁷⁰ Roedd Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn pethau ac yn rhagweithiol: fel yr eglurodd yr Athro Ogbonna, cymerwyd camau i fynd i'r afael â phroblemau wrth iddynt godi, yn hytrach nag aros i gyhoeddi'r adroddiad.⁷¹

27. Siaradodd yr Athro Debbie Foster am ddull "blaengar" Llywodraeth Cymru wrth benderfynu y dylai'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, ac nid Gweinidogion, benodi'r Cadeirydd a fyddai'n gyfrifol am gynhyrchu'r hyn a ddaeth yn adroddiad "Drws ar Glo".⁷² Soniodd yr Athro Foster am fanteision cydgynhyrchu: *"roedd pawb yn yr ystafell yn dod â rhywbeth i'r adroddiad...roedden ni i gyd yn mynd drwy'r pandemig ac yn profi pethau, ac wedyn roedd gan bobl brofiad bywyd"*.⁷³ Mae'r gwaith pwysig i weithredu argymhellion yr adroddiad yn parhau, dan oruchwyliaeth y Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Dywedodd yr Athro Foster, sy'n cyd-gadeirio'r Tasglu, bod ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ag ef yn *"rhagorol"*.⁷⁴

⁶⁸ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [138/8-15].

⁶⁹ Atherton, 4 Mawrth 2024 [53/11-19].

⁷⁰ Ogbonna, 28 Chwefror 2024 [48/25 – 49/2].

⁷¹ Ogbonna, 28 Chwefror 2024 [50/10-22].

⁷² Foster, 28 Chwefror 2024 [83/2-7].

⁷³ Cyfieithiad o Foster, 28 Chwefror 2024 [87/4-18].

⁷⁴ Cyfieithiad o Foster, 28 Chwefror 2024 [104/9-16].

28. Siaradodd y Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd yn gadarnhaol am y cyfathrebu cynnar a chynyddol rhwng ei swyddfa a Gweinidogion ac uwch-swyddogion.⁷⁵ Tystiodd y Comisiynydd Plant yn yr un modd i ymgysylltu rheolaidd ar lefel wleidyddol a swyddogol.⁷⁶ Cadarnhaodd tystion effeithiolrwydd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol a barhaodd yn elfen bwysig o'r strwythurau drwy gydol y pandemig ar ei ffurf estynedig,⁷⁷ gan hwyluso ymgysylltu a rhannu gwybodaeth ar draws cyrhaeddiad eang o'r gymuned.

B. Yr ymateb o ran cyfathrebu

29. Roedd gwaith cyfathrebu Llywodraeth Cymru o ran iechyd y cyhoedd yn cael ei lywio gan eglurder, tryloywder a gonestrwydd.⁷⁸ Roedd sicrhau bod gan y cyhoedd, a grwpiau agored i niwed a lleiafrifol yn benodol, fynediad effeithiol at gyfathrebu yn gonglfaen sylfaenol, gyda strategaethau penodol i fynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol, gan gynnwys:

- (a) Sefydlu'r Grŵp Cyfathrebu Hygyrch ar ddechrau Mehefin 2020 a oedd yn cynnwys swyddogion a sefydliadau o Gymru sy'n cynrychioli'r rhai a oedd yn wynebu rhwystrau o ran mynediad at gyfathrebu.⁷⁹ Cynhyrchodd eu gwaith hwy y Canllawiau ar Gyfathrebu gan ddefnyddio Fformatau Hygyrch.⁸⁰
- (b) Ymgyrchoedd ar gyfer y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol gan ddefnyddio taflenni copi caled a gafodd eu dosbarthu i aelwydydd yng Nghymru ac i feddygfeydd a chanolfannau cymunedol.
- (c) Gweithgareddau cyfathrebu i gyrraedd cymunedau lleiafrifol.⁸¹ Roedd y rhain yn cynnwys darparu deunydd cyfathrebu mewn hyd at 35 o ieithoedd gwahanol, ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid cydraddoldeb ac amrywiaeth ac arweinwyr cymunedol, sefydlu timau stryd amlddiwylliannol / amlieithog a sesiynau holi ac ateb yn cynnwys y Gweinidogion ac arbenigwyr.
- (d) Darparu deunydd cyfathrebu mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen a Braille o ddogfennau pwysig a defnyddio Iaith Arwyddion Prydain mewn cynadleddau i'r wasg.
- (e) Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gyda chefnogaeth sylweddol Comisiynydd Plant Cymru a'i thîm cyfathrebu (a ymunodd â grŵp cyfathrebu gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar 23 Mawrth 2020).

⁷⁵ Herklots, 28 Chwefror 2024 [118/18 – 119/22].

⁷⁶ Holland, 28 Chwefror 2024 [162/9 – 164/12], [169/12-17].

⁷⁷ Holland, 28 Chwefror 2024 [171/5-11]; Taj 6 Mawrth 2024 [81/2-19].

⁷⁸ Goodall (Llywodraeth Cymru), INQ000327735, §410; Mason, 7 Mawrth 2024 [55/19-56/1].

⁷⁹ Burke (CTPD), INQ000273937, §100.

⁸⁰ INQ000282164.

⁸¹ INQ000227599.

30. Roedd yn bwysig bod rheolau a oedd yn benodol i Gymru yn cael eu cyfleu i'r cyhoedd yng Nghymru. Roedd sefydlu Grŵp Cyfathrebu ar gyfer y Pedair Gwlad yn effeithiol iawn,⁸² er bod ei effeithiolrwydd yn dibynnu, yn anochel, ar rannu ymgyrchoedd arfaethedig rhwng gwledydd ymlaen llaw.⁸³
31. Roedd gwrthodiad arferol Llywodraeth y DU i nodi mai dim ond i Loegr yr oedd y cyhoeddiadau'n gymwys yn achosi dryswch diangen. Wedi dweud hynny, bu Llywodraeth Cymru'n gweithio yn galed i sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn deall y rheolau a oedd yn gymwys iddynt, drwy gynnal cynadleddau dyddiol i'r wasg, cyfweiliadau mynych ac ymddangosiadau yn y cyfryngau gan y Prif Weinidog a datblygu'r brand penodol 'Diogelu Cymru' i roi cysondeb. Roedd hyn yn effeithiol, fel y dangosir gan ganlyniadau⁸⁴ grŵp ffocws ar y pryd a lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd.⁸⁵

C. Yr ymateb ariannol

32. O'r dyddiau cyntaf, roedd Llywodraeth Cymru'n effro i'r pwysau ariannol a ddeuai yn sgil Covid-19. Anfonwyd gohebiaeth at y Canghellor yn pwysleisio bod angen i Lywodraeth Cymru gynllunio ac ymateb i'r feirws.⁸⁶ Ailadroddwyd hyn mewn Cyfarfod Pedairochrog ar 10 Mawrth, pan bwysleisiwyd bod demograffeg ac economi Cymru yn golygu bod y gwariant ar yr ymateb yn debygol o fod yn uwch na chyfran o wariant yn seiliedig ar y boblogaeth yn Lloegr.⁸⁷
33. Ar 20 Mawrth, gofynnwyd i'r Gweinidogion baratoi papurau yn nodi cynigion i ailbwrpasu cyllidebau portffolios unigol i gynorthwyo â'r ymateb.⁸⁸ Ar 23 Mawrth, sefydlwyd Siambr y Seren fel corff cynghori i fanteisio i'r eithaf ar effaith yr adnoddau sydd ar gael a darparu trosolwg strategol o'r holl benderfyniadau gwario mawr.⁸⁹ Roedd hwn yn strwythur rheoli ariannol cyfan gwbl newydd i Lywodraeth Cymru. Ar 25 Mawrth, nododd Siambr y Seren fod £256.5M i'w ailbwrpasu a'i roi yng Nghronfa Wrth Gefn yr Ymateb i Covid-19 a oedd newydd ei chreu. Cronfa ganolog oedd hon a grëwyd ar gyfer yr ymateb i'r pandemig ac a ddefnyddiwyd ar gyfer yr holl wariant sylweddol yn ymwneud â'r pandemig. Roedd arferion Siambr y Seren yn cael eu hadolygu'n barhaus i sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol ac yn dryloyw.

⁸² Mason, 7 Mawrth 2024 [68/14 – 69/6].

⁸³ Mason, 7 Mawrth 2024 [70/1 – 71/11].

⁸⁴ Gweler e.e. Nodyn Canfyddiadau, 13 Mai 2020, INQ000066103, a Nodyn Canfyddiadau, 21 Mai 2020, INQ000282289.

⁸⁵ Goodall (Llywodraeth Cymru), INQ000327735, §463-464.

⁸⁶ Llythyr, 6 Mawrth 2020, INQ000321258.

⁸⁷ Cofnodion y Cyfarfod Pedairochrog, 10 Mawrth 2020, INQ000353437.

⁸⁸ E-bost, 20 Mawrth 2020, INQ000271458.

⁸⁹ Cylch Gorchwyl INQ000066177.

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

34. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yn gyson faint o gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod y pandemig. Roedd Gwarant Barnett Covid-19 yn enghraifft o'r system yn gweithio'n dda ar ôl cael ei rhoi ar waith. Er hynny, roedd cyfyngiadau yn y ffordd yr oedd cymorth yn cael ei ddarparu ac mae gwersi i'w dysgu a fyddai'n gwella gallu Llywodraeth Cymru i ymateb yn effeithiol i bandemig yn y dyfodol.
35. Un maes i wella arno yw darparu gwybodaeth gan Lywodraeth y DU i hwyluso sicrwydd wrth gynllunio a rheoli'r ymateb ariannol. Gwnaed galwadau am eglurder ynghylch maint y cyllid canlyniadol yn gynnar⁹⁰ ac amlinellwyd canlyniadau posibl methu â darparu hyn yn benodol i'r Prif Ysgrifennydd ar 13 Mawrth.⁹¹ Ni ddaeth eglurder o'r fath tan Ddatganiad yr Hydref 2020,⁹² a oedd yn golygu bod risg ynghlwm wrth lawer o benderfyniadau blaenorol Llywodraeth Cymru.⁹³ Er i Warrant Barnett helpu'n fawr, ni chafodd Llywodraeth Cymru wybod ymlaen llaw am godiadau a ddaeth i law ym mis Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2020. Llestiriodd hyn allu Llywodraeth Cymru i gynllunio.⁹⁴
36. Mae'r angen am ystyriaeth rynglywodraethol amserol ac effeithiol o gyllid yn hanfodol. Gallai'r ffaith fod y Cyfarfodydd Cyllid Pedairochrog wedi cael eu ffurfioli'n ddiweddarach fel Pwyllgor Sefydlog fod o gymorth, ond ni fydd strwythur o'r fath ond mor effeithiol ag ymgysylltiad y rhai o dan sylw; mae maint ac effaith y rhain yn dal i fod o fewn cylch gwaith Trysorlys EF yn unig.
37. Mae'r digollediad gan Drysorlys EF o £155M ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21 yn dangos dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar benderfyniadau unigolion yn Llywodraeth y DU a chanlyniadau sylweddol hynny. Mae digolledu'n digwydd pan fydd swm canlyniadol Barnett yn negyddol oherwydd tanwariant gan Lywodraeth y DU mewn maes datganoledig. Mae hyn yn golygu nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fewnbwn na gallu i ddylanwadu ar hyn. Pe na bai Gwarant Barnett yn ei lle, byddai cyfran Barnett 'arferol' o'r cyllid a adferwyd wedi bod yn fwy na £1B, a fyddai wedi bod yn "gyfan gwbl anhydrin"⁹⁵ ac yn dangos pwysigrwydd sylfaenol y Warrant. Mae'n nodedig mai dim ond ar ôl 23 Gorffennaf 2020 yr oedd Gwarant Barnett ar waith, ac nad oedd yn bodoli pan oedd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei gallu ariannol i ymateb i Omicron ar ddiwedd 2021. Mae gweithredu Gwarant Barnett yn hanfodol i ymateb i bandemig yn y dyfodol ac mae'n rhywbeth y dylid ei

⁹⁰ Er enghraifft, Datganiad Ysgrifenedig, 11 Mawrth 2020 (INQ000321259).

⁹¹ Llythyr, 13 Mawrth 2020 (INQ000320760).

⁹² Evans, [91/9-19]

⁹³ Evans, [95/18 – 96/5]

⁹⁴ Evans, para.100-101.

⁹⁵ Evans, [76/15-21]

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

weithredu rhag blaen os bydd pandemig yn taro eto.⁹⁶ Ar hyn o bryd nid oes mecanwaith i sicrhau y byddai ar gael eto. Mae canlyniadau posibl ei habsenoldeb yn llwm o'u hystyried yng nghyd-destun digolledu.

38. Fel y dangosodd y cyfnod atal byr yn hydref 2020 a'r ymatebion i Omicron ar ddiwedd 2021, roedd y trefniadau cyllido presennol hefyd yn gyfyngedig mewn ymateb i'r pandemig i'r graddau bod y materion hynny wedi'u cadw i Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei chefnogaeth a'i diolch dro ar ôl tro mewn perthynas â chyflwyno'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws gan Lywodraeth y DU, a roddodd gymorth ariannol hanfodol i lawer o fusnesau Cymru a'u cyflogeion o fis Mawrth 2020 ymlaen. Er hynny, wrth i'r pandemig symud ymlaen i haf 2020 ac wrth i ymagweddau gwahanol y pedair gwlad o ran cyfyngiadau ddod i'r amlwg, daeth yn glir y gallai materion godi o ran ei argaeledd i'r llywodraethau datganoledig yn achos cyfyngiadau rhanbarthol neu leol.
39. Mewn gohebiaeth at y Canghellor ar y pryd yn haf 2020, gofynnwyd am eglurhad ynghylch a fyddai'r Cynllun ar gael os byddai hyn yn digwydd, ond ni ddarparwyd hyn erioed.⁹⁷ Mewn cyfarfod COBR ar 22 Medi,⁹⁸ gofynnodd Prif Weinidog Cymru am eglurhad gan y Trysorlys ynghylch y trefniadau cyllido sydd ar gael i gefnogi'r rhai y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu yn y gwledydd datganoledig. Ar 24 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn creu Cynllun Cefnogi Swyddi newydd a fyddai'n dod i rym ar 1 Tachwedd 2020.⁹⁹
40. Er bod y cynllun diweddarach yn darparu mwy o gymorth, y gwahaniaeth mwyaf sylweddol oedd dileu'r gofyniad presennol i gyflogeion fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo yn flaenorol i fod yn gymwys o dan y cynllun diweddarach. Roedd hyn yn bwysig: roedd y cynllun presennol wedi cau i newydd-ddyfodiaid ers 30 Mehefin 2020 gan olygu nad oedd unrhyw gyflogai nad oedd wedi bod ar ffyrlo o'r blaen neu a oedd wedi'i gyflogi ar ôl Mehefin 2020 yn gallu caell cymorth ariannol. Roedd hynny'n effeithio'n arbennig ar y sector lletygarwch lle'r oedd llawer o weithwyr newydd wedi cael eu cyflogi i ailagor y diwydiant. Canlyniad hyn oedd y byddai'r 'cyfnod atal byr' a ddechreuodd ar 23 Hydref 2020 yn golygu na fyddai llawer o fusnesau a gweithwyr Cymru yn gallu bod yn gymwys i gael cymorth ariannol o dan y cynllun presennol ar gyfer y cyfnod 23 i 31 Hydref. Hyd yn oed lle y byddai cynllun o'r fath yn gymwys, byddai busnesau'n gorfod ysgwyddo'r baich gweinyddol o wneud cais am gymorth o dan ddau gynllun ar wahân mewn cyfnod o 17 diwrnod.

⁹⁶ Gweler enghreifftiau eraill o hyblygrwydd y gallai fod eu hangen mewn pandemig yn y dyfodol: INQ000066172.

⁹⁷ Llythyr, 4 Mehefin 2020, INQ000220503, a Llythyr, 3 Gorffennaf 2020, INQ000066172.

⁹⁸ Cofnodion, 22 Medi 2020, §10, INQ000083849.

⁹⁹ Chancellor outlines Winter Economy Plan - GOV.UK (www.gov.uk).

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

41. Ar 16 Hydref, nododd y Prif Weinidog y pryderon hyn (ac eraill) a gofynnodd am i fynediad at y Cynllun Cefnogi Swyddi newydd gael ei ddwyn ymlaen i 23 Hydref ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru.¹⁰⁰ Cynigiodd Llywodraeth Cymru ad-dalu unrhyw gostau ariannol ychwanegol a fyddai'n cael eu hysgwyddo gan CThEF oherwydd y cynnydd mewn ad-daliadau ariannol a oedd ar gael o dan y cynllun newydd.
42. Ar 19 Hydref, cadarnhaodd Rishi Sunak fod cais Prif Weinidog Cymru wedi'i wrthod “*due to the limitations in HMRC delivery timelines*”.¹⁰¹ Mae cyngor dros e-bost i'r Canghellor ar y pryd y diwrnod hwnnw hefyd yn awgrymu bodolaeth polisi gan Lywodraeth y DU i beidio â darparu cymorth ariannol mewn sefyllfaoedd lle “*DAs [are] going further than HMG on NPIs*”¹⁰², er na chafodd hyn ei gyfathrebu. Ni chafodd cais pellach gan Brif Weinidog Cymru ar 20 Hydref¹⁰³ i hepgor y gofyniad o dan y Cynllun presennol i gyflogeion fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo o'r blaen mo'i ateb.¹⁰⁴
43. Awgrymodd Rishi Sunak y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi defnyddio'r cyllid a oedd ar gael i ariannu'r cyfnod atal byr.¹⁰⁵ Mae hynny'n gamddealltwriaeth sylfaenol o natur benodol y cymorth a ddarperir gan y cynlluniau ‘ffyrlo’ perthnasol; mater a gedwir yn ôl yw cyflogaeth, ac nid oedd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol nac mewn sefyllfa i weinyddu cynllun o'r fath. Yn wir, byddai creu a rheoli cynllun o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i CThEF ddarparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru nad oedd ganddo hawl gyfreithiol i'w datgelu. Mae eironi clir ynghlwm wrth awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun amgen cyfan gwbl newydd gyda chyllid Gwarant Barnett yn yr amser byr a oedd ar gael, tra'n honni hefyd nad oedd CThEF yn gallu dwyn cynllun a gynlluniwyd ymlaen un wythnos yn unig o fewn yr un amserlen (ar ôl rhedeg cynllun tebyg iawn am fwy na chwe mis cyn hynny).
44. Nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi honni na chafodd cyllid digonol ei ddarparu gan Lywodraeth y DU yn ystod y pandemig. Y gwir amdani yw bod amseriad a ffeithiau penderfyniadau ariannu wedi'u seilio yn unig ar benderfyniadau iechyd y cyhoedd a wnaed gan Lywodraeth y DU lle'r oedd gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig dros benderfyniadau o'r fath yng Nghymru a oedd golygu effeithiau ariannol anochel, gan gynnwys gosod cyfyngiadau symud ac ymyriadau anfferyllol eraill.
45. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle y cafodd ystyriaethau a chyfyngiadau ariannol effaith uniongyrchol ar allu Llywodraeth Cymru mewn modd nad oedd yn wir yn achos Llywodraeth

¹⁰⁰ Llythyr, 16 Hydref 2020, INQ000216554.

¹⁰¹ Llythyr, heb ddyddiad, INQ000216555.

¹⁰² INQ000397193.

¹⁰³ INQ000216553.

¹⁰⁴ Fel y'i derbyniwyd yn Natganiad M2B, Rishi Sunak, §25-26.

¹⁰⁵ Sunak, 11 Rhagfyr 2023, tt.171-176.

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

y DU. Pe bai Llywodraeth y DU yn ceisio gosod cyfyngiadau symud neu ymyriadau anfferyllol eraill, byddai Trysorlys EF yn darparu cymorth ariannol o'r fath. Dyna a ddigwyddodd pan wnaeth Llywodraeth y DU ymestyn y Cynllun Cefnogi Swyddi pan gyhoeddodd ei 'chyfnod atal byr' ei hun ar 5 Tachwedd.¹⁰⁶

46. Roedd yr anghydbwysedd hwn yn amlycach byth ar ddiwedd 2021 pan oedd amrywiolyn Omicron yn peri bygythiad. Unwaith eto, gofynnwyd am eglurhad y byddai cymorth ariannol angenrheidiol ar gael pe bai penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyfer mesurau mwy ymyriadol na'r rhai gan Lywodraeth y DU.¹⁰⁷ Nid oedd Gwarant Barnett na chynllun 'ffyrlo' perthnasol ar waith, a gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r rhain ar gael. Ni ddaeth y naill na'r llall i fodolaeth.
47. Ar 16 Rhagfyr 2021, cafodd y Cabinet gyngor gan TAG nad oedd unrhyw beth islaw mesurau Lefel Rhybudd 4 yn debygol o gael effaith digon sylweddol i atal niwed perthnasol i wasanaethau gofal.¹⁰⁸ Ar 21 Rhagfyr, cydnabuwyd bod absenoldeb unrhyw gynlluniau cymorth cyflogaeth yn golygu na ellid lliniaru niwed o gyfyngiadau yn yr un modd ag mewn tonnau blaenorol. O'r herwydd, ni fyddai modd rhoi'r mesurau llymaf ar waith.¹⁰⁹ Felly, nid oedd Llywodraeth Cymru yn gallu gweithredu ar y cyngor gwyddonol o ganlyniad uniongyrchol i fethu â gofyn am ailgyflwyno'r cynllun 'ffyrlo' neu ddewis arall priodol arall.
48. Pe bai'r amrywiolyn Omicron wedi datblygu yn unol â'r sefyllfa waethaf resymol, byddai ôl-ffeithiau sylweddol wedi deillio o anallu Llywodraeth Cymru i wneud y penderfyniadau yr oedd yn eu hystyried yn angenrheidiol. Er bod y fframwaith cyllidol 'mewn cyfnod o heddwch' rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru y tu allan i gylch gwaith yr Ymchwiliad, mae achos clir dros argymhell bod hyblygrwydd ariannol a/neu fecanweithiau penodol yn cael eu rhoi ar waith yn achos pandemig yn y dyfodol i ganiatáu i'r llywodraethau datganoledig ymateb yn ariannol a gwneud penderfyniadau craidd ar sail gyfartal i Lywodraeth y DU.

D. Ailymddangosiad y feirws: cyfyngiadau lleol a'r cyfnod atal byr

49. Cyfyngiadau lleol: Cafodd y rhain eu rhoi ar waith o ddechrau Medi 2020 mewn ymgais cytbwys a rheoledig i reoli lledaeniad y feirws yn gymesur, gan ystyried: y niwed a fyddai'n cael ei ddioddef drwy gyflwyno cyfyngiadau i'r wlad gyfan; y ffaith bod y feirws yn dal i gael ei atal i bob pwrpas mewn sawl rhan o Gymru; a llwyddiant blaenorol o ran rheoli brigiadau

¹⁰⁶ Furlough Scheme Extended and Further Economic Support announced - GOV.UK (www.gov.uk).

¹⁰⁷ Er enghraifft, Llythyr, 29 Tachwedd 2021, INQ000256922, a Llythyr, 15 Rhagfyr 2021, INQ000321139.

¹⁰⁸ Cyngor TAG, 15 Rhagfyr 2021, INQ000057972.

¹⁰⁹ Papur Adolygu'r Cabinet, 21 Rhagfyr 2021, INQ000057994.

lleol yn lleol. Nid yw'r ffaith bod y cyfyngiadau lleol wedi methu â rheoli'r feirws yn y pen draw yn tynnu oddi ar y ffaith eu bod wedi'u cynllunio a'u gweithredu'n drylwyr ac yn effeithlon, mewn cydweithrediad â llywodraeth leol; a'u bod wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau achosion yn yr ardaloedd lleol, er nad oeddent yn ddigonol i atal y feirws rhag lledaenu y tu allan i'r ardaloedd hynny.¹¹⁰

50. Yn sgil rheoli'r cyfyngiadau lleol sefydlwyd Is-grŵp Brigiadau'r Grŵp Cyngori ar Ddiogelu Iechyd (**HPAG OSG**) ar 10 Medi 2020, ddeuddydd ar ôl gweithredu'r cyfyngiadau symud lleol cyntaf yng Nghaerffili, i ddiwallu'r angen am fonitro datblygiadau rheolaidd a manwl ar lefel leol, gyda llinell adrodd uniongyrchol i'r Gweinidogion.¹¹¹ Heb os, roedd HPAG OSG yn llwyddiant allweddol, gan barhau i weithredu drwy gydol y pandemig fel rhan ganolog o strwythurau ymateb Llywodraeth Cymru i Covid-19 a chan ddangos gallu'r sefydliad i ymateb yn hyblyg ac ar fyrder i'r sefyllfa sy'n datblygu.
51. *Cyfnod atal byr*: Ym mis Medi a Hydref 2020 bu rhaid i'r Gweinidogion daro'r cydbwysedd anodd rhwng ailagor cymdeithas yn ddiogel tra'n lleihau digwyddedd cynyddol y feirws. Fel y cydnabu'r Athro Wincott, roedd gwahaniaeth sylfaenol rhwng y sefyllfa a oedd yn bodoli yng nghanau cychwynnol y pandemig, a'r sefyllfa a oedd yn bodoli o haf 2020, pan oedd ffocws y polisi wedi symud o reidrydd i barhau ag ystod fwy arferol o wasanaethau'r GIG.¹¹² Roedd cymharu'r cyfnod atal byr â'r cyfyngiadau symud cyntaf, yng ngeiriau'r Athro Wincott, yn “*gyfwerthedd ffug*”. Roedd angen pwysu a mesur y niwed hefyd, a'r angen i sicrhau cefnogaeth y cyhoedd i unrhyw gyfyngiadau pellach a pharodrydd i gydymffurfio â hwy.¹¹³ Crëwyd “*blaenwynt gwleidyddol*” sylweddol hefyd gan wrthwynebiad gweithredol a huawdl Llywodraeth y DU i gyfyngiadau symud pellach.¹¹⁴ Ni ddylid tanbrisio hyn fel ffactor wrth wneud penderfyniadau, o gofio hefyd iddo gael ei ategu gan yr wrthblaid yn y Senedd.
52. Yn erbyn hyn, roedd y pwysau economaidd sylweddol – a oedd yn arbennig o berthnasol i hyd arfaethedig y cyfnod atal byr – o ganlyniad i ddiffyg hyblygrwydd Trysorlys EF ynghylch y cymorth ariannol a oedd ar gael i unigolion a busnesau, fel yr ystyriwyd uchod.
53. Dyna oedd y cyd-destun lle'r ystyriodd Llywodraeth Cymru y cyngor gwyddonol o ganol mis Medi. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, treuliyd mis Hydref yn ceisio mynd i'r afael â'r ffactorau hynny a oedd yn cystadlu â'i gilydd.¹¹⁵ Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud mewn

¹¹⁰ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [144/20 – 145/6].

¹¹¹ Kilpatrick, INQ000274156, §§§92 a 142.

¹¹² Wincott, 29 Chwefror 2024 [54/10 – 55/5].

¹¹³ Drakeford 13 Mawrth 2024 [147/23 – 148/11], Gething 11 Mawrth 2024 [166/15 – 167/19].

¹¹⁴ Drakeford 13 Mawrth 2024 [147/23 – 148/11].

¹¹⁵ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [148/24 – 149/3].

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

egwyddor ar 15 Hydref 2020, cafwyd pedwar diwrnod o ymgysylltu dwys wedi hynny â chynrychiolwyr y sector ynghylch ei effaith, cyn iddo gael ei ffurfioli ar 19 Hydref 2020.¹¹⁶ Roedd hwn yn ddull gweithredu cyfan gwbl synhwyrol a rhesymol.

E. Nadolig 2020

54. Ceisiodd y pedair gwlad ymagwedd gyson at Nadolig 2020. Roedd miliynau o bobl wedi cydymffurfio â'r cyfyngiadau drwy gydol 2020 ac roeddent yn dal i obeithio am Nadolig gyda'r anwyliaid yr oeddent wedi'u gwahanu oddi wrthynt. I lawer, roedd hynny'n golygu teithio ar draws ffiniau, ar draws y DU i gyfarfod ag aelodau o'r teulu ac i ffurfio swigen. Roedd gwir rinwedd o ran cysondeb ymagwedd ar draws y pedair gwlad, ond gyda chymhwysiad pwrpasol yng Nghymru drwy'r system bedair haen.
55. Yn y Cabinet ac mewn Galwadau Gweinidogol ar 10, 15 a 19 Rhagfyr, bu'r Gweinidogion yn monitro'r sefyllfa a oedd yn datblygu yn agos ac yn cael cyngor gwyddonol ar bob cam. Gofynnodd Cwnsler yr Ymchwiliad a oedd Llywodraeth Cymru wedi dysgu gwersi o gyfnodau cynharach y pandemig a thonnau cynharach. Drwy gydol y cyfnod anodd hwn, gwnaeth Llywodraeth Cymru ystyried a chymhwyso'r gwersi yr oedd wedi'u dysgu am niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol o ran Covid, gan gynnwys niwed a achosir gan gyfyngiadau symud yn ogystal â'r rhai a achosir gan beidio â chyflwyno cyfyngiadau.
56. Roedd Mr Drakeford a Mr Gething yn bryderus iawn am effaith cau ysgolion ar blant, a phlant agored i niwed yn benodol, a hwythau wedi gweithio mor galed i sicrhau bod plant yn gallu dychwelyd i'r ystafell ddosbarth.¹¹⁷ Mae'r Nadolig yn gyfnod pwysig i'r economi a byddai ei gau i lawr yn arwain at ganlyniadau hirdymor i lawer o fusnesau.¹¹⁸
57. Disgrifiodd Mr Drakeford hyn fel y cyfnod anoddaf o ran gwneud penderfyniadau yn y pandemig. Nid oedd y Cabinet yn gytûn a thrafodwyd y penderfyniad yn egnïol. Er bod Mr Drakeford wedi mynd i mewn i'r Cabinet gyda'r bwriad o ohirio'r cynnydd mewn cyfyngiadau, gwrandawodd ar y cyngor a gafodd a safbwyntiau ei Gabinet ac yn y pen draw fe ddyfarnodd i'r gwrthwyneb.

F. Cysylltiadau rhynglywodraethol

58. Ym mis Mai 2020, penderfynodd Llywodraeth y DU ad-drefnu ei strwythurau Cabinet yn unochrog. O ganlyniad, tan fis Hydref 2020 pan ailddechreuodd COBR, gwahoddwyd y Prif Weinidogion i gyfarfodydd Covid-O yn unig, o dan gadeiryddiaeth Canghellor Dugiaeth

¹¹⁶ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [165/15 – 167/3].

¹¹⁷ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [169/21 – 173/9]; Gething, 11 Mawrth 2024 [182/8 – 194/10].

¹¹⁸ Drakeford, 13 Mawrth 2024 [170/24 – 171/11].

Caerhirfryn, tra oedd y penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud gan Brif Weinidog y DU yn Covid-S.

59. Fel y mae sawl tyst wedi esbonio, nid oes gwahaniaeth ai cyfarfodydd COBR, cyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Gweinidogion neu gyfarfodydd eraill oedd y cyfarfodydd â'r Prif Weinidogion. Yr hyn a oedd yn bwysig oedd yr angen am drefn ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd, a oedd yn cael eu mynychu gan Brif Weinidog y DU a'r Prif Weinidogion, lle'r oedd penaethiaid y pedair llywodraeth yn gallu codi, trafod a phenderfynu ar faterion o ddiddordeb a phryder i'r ddwy ochr. Dyna yr oedd Prif Weinidog Cymru yn galw amdano'n rheolaidd.¹¹⁹
60. Nododd Prif Weinidog Cymru nifer o resymau pam y cafodd y diffyg ymgysylltu hwn effaith andwyol ar wneud penderfyniadau.¹²⁰ yn gyntaf, roedd yn bwysig i'r penaethiaid llywodraethau gael eu gweld yn cydweithio yn ystod cyfnod o berygl cenedlaethol; yn ail, hyd yn oed pe na bai penderfyniadau'n unffurf, byddai'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd wedi gadael pob llywodraeth yn fwy gwybodus o'r rhesymau dros benderfyniadau gwahanol, yr heriau gwahanol sy'n wynebu pob llywodraeth a sut roeddent yn bwriadu delio â hwy. Byddai wedi gwella ymddiriedaeth ymhlith y penaethiaid y llywodraethau a oedd yn agwedd bwysig mewn amgylchedd anodd a chyflym; ac, yn drydydd, er bod gan Ganghellor Dugiaeth Caerhirfryn ddylanwad, nid oedd yn benderfynodol ac felly roedd terfyn o ran i ba raddau y gallai arwain ymateb gan y pedair gwlad.
61. Roedd Boris Johnson am osgoi creu'r argraff bod y Deyrnas Unedig yn wladwriaeth ffederal,¹²¹ pryder a oedd yn cael ei rannu gan yr Ysgrifenyddion Gwladol a ddisgrifiodd y cyfarfodydd rheolaidd rhwng Prif Weinidog y DU a Phrif Weinidogion y gwledydd datganoledig fel “potential federalist Trojan horse”.¹²² Nid oedd pryder Mr Johnson ynghylch sut yr oedd pethau'n ymddangos yn cydnabod nac felly yn effro i aruthredd yr hyn oedd yn wynebu'r pedair gwlad.
62. Haerodd Llywodraeth Cymru, wrth agor, i fanteision sybsidiaredd ddod yn glir unwaith y dechreuodd y llywodraethau datganoledig wneud rheoliadau ym maes iechyd y cyhoedd. Nid oes dadl o blaid yr awgrym a wnaed gan rai o gyn-weinidogion Llywodraeth y DU y dylai unrhyw ymateb yn y dyfodol gael ei ganoli. Mae hynny'n dal yn wir. Roedd llacio'r cyfyngiadau yn fwy gofalus ac amseru'r cyfnod atal byr o amgylch y gwahanol ddyddiadau tymhorau ysgol yng Nghymru yn ddwy enghraifft yn unig lle y gwnaeth ystyriaeth

¹¹⁹ Drakeford (Modiwl 2, 2^{il} ddatganiad), §18.

¹²⁰ Drakeford, 13 Mawrth 2024, tt. 11 – 12 a 17 – 18.

¹²¹ Johnson, §188 [INQ000255836].

¹²² [INQ000091348].

Modiwl 2B – Datganiad cloi Llywodraeth Cymru

ddatganoledig o anghenion poblogaeth Cymru arwain, o reidrwydd, at benderfyniadau gwahanol.

G. Cyfathrebu anffurfiol

63. Ar ddechrau'r modiwl hwn, dywedodd Cwnsler yr Ymchwiliad nad oedd yn ymddangos bod Gweinidogion Cymru yn defnyddio WhatsApp neu unrhyw fath arall o gyfathrebu anffurfiol fel dewis arall yn lle prosesau ffurfiol i wneud penderfyniadau. Dair wythnos yn ddiweddarach, ar ôl clywed gan 14 o dystion o Lywodraeth Cymru, y safbwynt o hyd yw nad oes tystiolaeth bod Gweinidogion Cymru wedi defnyddio dulliau cyfathrebu anffurfiol i wneud penderfyniadau.

Casgliad

64. Y cwestiwn eithaf yn y modiwl hwn yw a oedd penderfyniadau Llywodraeth Cymru, gan gymryd i ystyriaeth y llu o ffactorau perthnasol (gwrthdrawiadol yn aml) yn 'rhesymol'. Mae'n amlwg y gallai penderfyniadau gwahanol fod wedi cael eu gwneud ond roedd pob un o'r rhain serch hynny yn fesurau 'rhesymol' i ddelio â'r her ddigynsail i gymdeithas sifil a gyflwynwyd gan Covid-19. Ar gyfer pob penderfyniad, nid oedd unrhyw un ateb "cywir": yn benodol, nid oedd unrhyw benderfyniad yn rhydd rhag canlyniadau; ac ni allai unrhyw un penderfyniad fod wedi gwarantu na fyddai neb wedi colli ei fywyd i'r feirws.

65. Nododd pob un o'r dystion o Lywodraeth Cymru sut y byddent wedi ymddwyn yn wahanol pe bai ganddynt fudd yr wybodaeth sydd gennym nawr am y feirws megis, er enghraifft, effeithiau tymor hir Covid-19. Ond ni ellir barnu'r penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn deg drwy edrych yn ôl, ond gan yr hyn a oedd yn hysbys ar yr adeg berthnasol am natur y feirws (sef ychydig iawn yn unig yn ystod misoedd cynnar 2020) ac mewn amgylchiadau lle'r oedd angen gweithredu'n gyflym a chymryd penderfyniadau anodd i ddiogelu pobl Cymru.

Dyddiedig 5 Ebrill 2024